

**Arolygiad o  
Gydymffurfiaeth â'r  
Rheoliadau  
Ymbelydredd Ioneiddio  
(Amlygiad Meddygol)  
(Lle Rhoddwyd  
Rhybudd)**

Meddygaeth Niwclear: Ysbyty  
Maelor Wreccsam

Dyddiad arolygu: 23 a 24 Ionawr  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ebrill 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	22
4.	Beth nesaf?.....	25
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio... 26	
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd ar gyfer Ysbyty Maelor Wrecsam sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23 a 24 Ionawr 2019. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom ymweld â'r adran feddygaeth niwclear.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac Uwch Swyddog Clinigol o grŵp Amlygiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017, ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella.

Rhodddwyd sicrwydd inni fod y cleifion yn cael gwasanaeth diogel ac effeithiol.

Roedd strwythur rheoli ar waith ac roedd llinellau adrodd clir wedi'u disgrifio a'u dangos.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd
- Yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Roedd y bwrdd iechyd wedi mynd ati'n rhagweithiol i greu gweithdrefnau newydd i fodloni gofynion y rheoliadau newydd
- Roedd y bwrdd iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio adborth gan gleifion yn benodol am eu profiadau yn yr adran radioleg
- Gwelsom fod uwch aelodau o'r staff yn arwain mewn ffordd amlwg a chefnogol
- Roedd cydberthnasau gwaith da â'r arbenigwyr ffiseg feddygol a oedd yn rhoi cymorth mewn perthynas â meddygaeth niwclear.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried sut y gellir gwneud gwybodaeth ysgrifenedig y cleifion yn fwy hygyrch a chyson ag ymarfer.
- Sicrhau bod y wybodaeth i gleifion yn glir am ffordd y gallant roi adborth a sut i godi pryder am eu gofal a'u triniaeth
- Gwella'r manylion yn y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig ar gyfer cyfiawnhau amlygiadau

- Diweddarau'r weithdrefn ar gyfer gofalwyr a chysurwyr er mwyn dynodi unigolion yn briodol fel gofalwyr a chysurwyr ym maes meddygaeth niwclear ddiagnostig, a sicrhau dull gweithredu cyson â meysydd eraill
- Egluro'r cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ynglŷn â thomograffeg allyrru Positron - gwasanaeth tomograffeg gyfrifiadurol <sup>1</sup> (PET-CT).

Er i ni nodi bod meysydd i'w gwella, ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

---

<sup>1</sup>Mae tomograffeg allyrru Positron - gwasanaeth tomograffeg gyfrifiadurol (sydd yn fwy hysbys fel PET-CT) yn dechneg feddygaeth niwclear. Mae sgan PET-CT yn cyfuno sgan CT a sgan PET. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl am y corff, megis canser. Mae'r sgan CT yn cymryd cyfres o belydrau-X o gwmpas y corff ac yn eu cyfuno i greu llun 3D. Mae'r sgan PET yn defnyddio cyffur ymbelydrol ysgafn i ddangos yr ardaloedd o'r corff lle mae'r celloedd yn fwy actif nag arfer.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau i boblogaeth o tua 678,000 o bobl ledled chwe sir yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi'i leoli yn Wrecsam, ac mae'n darparu nifer o wasanaethau i gleifion mewnol a chleifion allanol ynghyd ag adran achosion brys 24 awr.

Mae'r adran meddygaeth niwclear yn yr adran radioleg (pelydr-X) ac mae'n cefnogi nifer o wasanaethau gan gynnwys y canlynol:

- Delweddu meddygaeth niwclear gan ddefnyddio sganiwr tomograffeg allyrru ffoton unigol - tomograffeg gyfrifiadurol (SPECT-CT<sup>2</sup>)
- Delweddu tomograffeg allyrru positron - tomograffeg gyfrifiadurol (PET-CT)
- Therapi iodid 131 ar gyfer trin clefyd thyroid anfalaen<sup>3</sup>.

---

<sup>2</sup>Math o brawf delweddu niwclear yw tomograffeg allyrru ffoton unigol (SPECT) sy'n dangos prosesau gweithredol, megis sut mae gwaed yn llifo i feinweoedd ac organau. Gellir cyfuno sganiwr SPECT â sganiwr CT i ddarparu gwybodaeth anatomegol hefyd.

<sup>3</sup>Mae therapi iodid 131 yn fath o therapi ymbelydredd a ddefnyddiwyd ers blynnyddoedd lawer i drin nifer o gyflyrau, gan gynnwys afiechydon y thyroid a chanser.



## **Ansawdd profiad y claf**

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig yn fwy hygyrch i gleifion er mwyn amlygu negeseuon allweddol.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod yr adran radioleg yn annog adborth gan gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y bwrdd iechyd yn egluro'r ffyrdd y gall cleifion ddarparu adborth neu godi pryderon.

Cyn ac yn ystod yr arolygiad, gofynnwyd i'r staff ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Nid oedd yn bosibl siarad â chleifion yn ystod yr arolygiad y tro hwn.

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys posteri am fanteision cael brechlyn ffliw ac ymwybyddiaeth o sepsis, strôc a dementia.

Roedd posteri'n cael eu harddangos yn glir, yn gofyn i unigolion beichiog neu a allai fod yn feichiog neu sy'n bwydo ar y fron roi gwybod i aelod o'r staff. Mae hwn yn un o'r gofynion rheoleiddiol ac mae'n bwysig er mwyn hybu diogelwch y cleifion.

Gwelsom fod cleifion yn cael gwybodaeth am y risg o drosglwyddo'r ymbelydredd i bobl eraill am gyfnod byr yn dilyn eu triniaeth. Rhoddwyd cyngor i gleifion i osgoi cysylltiad agos â phlant ac unigolion sy'n feichiog.

### **Gofal ag urddas**

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a

pharch gan y staff yn yr ysbyty ac yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster bob amser yn ystod apwyntiadau.

Lle y bo'n berthnasol, roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff yn gwrandio arnynt a'u bod yn gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu prawf neu eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Er na wnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin, gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gyfeillgar. Roedd y staff yn ymwybodol o barchu preifatrwydd ac urddas cleifion, a gwelsom fod drysau ystafelloedd triniaeth yn cael eu cau pan oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod llinell breifatrwydd ar y llawr ger y brif dderbynfa i leihau'r tebygolrwydd y byddai cleifion yn cael eu clywed wrth siarad â'r staff wrth y dderbynfa.

Eglurodd y staff fod cleifion meddygaeth niwclear fel arfer yn aros yn eu dillad eu hunain yn ystod eu triniaeth, ond gwelsom fod ciwbiclau ar gael i gleifion wisgo gynau urddas yr ysbyty pe bai angen.

Roedd gan yr adran meddygaeth niwclear ei hardal aros ei hun. Eglurodd y staff y byddai cleifion yn cael eu cludo i ystafell ar wahân er mwyn cadarnhau eu manylion cyn cael eu triniaeth.

## Gwybodaeth i gleifion

### *Cyfleu buddiannau a risgiau*

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, cymaint ag yr hoffent, mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'u hopsiynau o ran triniaeth. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt hwy eu hunain ar ôl eu triniaeth. Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig o ran gyda phwy y dylid cysylltu i gael cyngor ar sgil-ffeithiau unrhyw driniaethau a gawsant. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hefyd y byddent yn gwybod sut i godi pryder neu wneud cwyn am y gwasanaeth.

Roedd gwybodaeth am driniaethau meddygaeth niwclear yn cael ei harddangos i gleifion a'u gofalwyr ei darllen er mwyn hyrwyddo eu dealltwriaeth ymhellach.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith yr oedd wrthi'n ei datblygu ymhellach i roi arweiniad i'r staff wrth iddynt roi gwybodaeth i unigolion am y buddiannau

a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael prawf meddygaeth niwclear. Mae hyn yn ofynnol o dan y rheoliadau ac mae'n helpu i sicrhau bod cleifion a'u gofalwyr yn cael gwybodaeth lawn am eu gofal a'u triniaeth.

Gwnaethom edrych ar y wybodaeth am weithdrefnau meddygaeth niwclear a anfonwyd at gleifion gyda'u llythyr trefnu apwyntiad. Er bod y wybodaeth hon yn gynhwysfawr, gwnaethom sylwi bod llawer iawn o wybodaeth yn cael ei darparu, sy'n golygu y gallai gwybodaeth allweddol fod yn anos i gleifion ei hadnabod. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y pwysigrwydd o sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig yn gyson â'r wybodaeth lafar a ddarperir gan staff, a'r cyngor a argymhellir gan arbenigwyr ffiseg feddygol. Gwnaethom drafod hyn gyda'r staff yn ystod yr arolygiad.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig a ddarperir i gleifion yn hawdd ei deall er mwyn i negeseuon allweddol fod yn amlwg ac yn gyson â'r wybodaeth lafar a roddir gan y staff.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion, gan gynnwys darpariaeth i gleifion sy'n siarad Cymraeg.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith 'bob amser' neu 'weithiau'.

Roedd system dolen sain weithredol ar gael er mwyn helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff.

Gwelsom fod saethau mawr ar y llawr lliw ar y llawr er mwyn helpu cleifion i ddod o hyd i'r ardal briodol yn yr adran radiolog. Eglurodd y staff y byddent yn hebrwng unrhyw gleifion yr oedd angen cymorth arnynt i'r ardal briodol.

### Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt.

Cyrhaeddodd cleifion y brif dderbynfa ar gyfer eu hapwyntiad yn yr adran meddygaeth niwclear. Gwelsom fod cleifion wedyn yn cael eu hebrwng neu eu cyfeirio at yr adran meddygaeth niwclear. Ar ddiwrnodau ein harolygiad, wrth inni weld bod y brif dderbynfa'n brysur ar adegau, ymddangosai bod cleifion yn cael eu gweld yn eithaf prydlon.

Roedd staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion ar lafar am unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad.

Yn yr adran meddygaeth niwclear, dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymdrechu i gadw at amser apwyntiad y claf. Hefyd, roedd poster yn dweud wrth gleifion i roi gwybod i'r staff os oeddent yn teimlo eu bod wedi bod yn aros yn hirach na'r disgwyl.

## **Gofal Unigol**

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu rhoi adborth am eu profiadau a chodi pryderon am eu gofal a'u triniaeth.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod yr adran radioleg yn annog adborth gan gleifion. Gwelsom fod blychau awgrymiadau ar gael gyda holiaduron radioleg, a'r rheini'n benodol ar gyfer y math o driniaeth a gafwyd gan y cleifion. Roedd canlyniadau'r holiaduron hyn yn cael eu harddangos ar bosteri yn y coridor.

Dywedodd y staff eu bod yn croesawu adborth ac yn ceisio'i ddefnyddio hyn i wella'r wybodaeth y maent yn ei rhoi i gleifion am eu profion.

Er bod adborth yn cael ei annog, gwelsom fod tri phoster gwahanol wedi'u harddangos ar sut y gallai cleifion roi eu hadborth. Mae hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn ansicr ynglŷn â pha un fyddai'r dull mwyaf priodol o fynegi eu barn neu eu pryderon.

Gwnaethom sylwi hefyd fod gweithdrefn gwyno arall wedi'i harddangos i gleifion sy'n cael sgan PET-CT ar uned symudol a gaiff ei rhedeg gan sefydliad preifat. Felly, mae'n aneglur i gleifion pa weithdrefn gwyno y dylent ei dilyn os ydynt yn cael gofal gan y bwrdd iechyd a'r sefydliad preifat.

### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod eglurder o ran y ffyrdd y gall cleifion roi adborth neu godi pryderon, gan gynnwys cleifion sy'n derbyn PET-CT drwy'r gwasanaeth symudol.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Gwelsom fod trefniadau ar waith i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion a oedd yn ymweld â'r adran meddygaeth niwclear.

Nodwyd gennym rai meysydd i'w gwella gan gynnwys yr angen i bennu'r holl ganllawiau cyfeirio o fewn gweithdrefnau, gwella manylion y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig a sicrhau cysondeb o ran yr ymagwedd tuag at ofalwyr a chysurwyr.

### **Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)**

#### **Dyletswyddau cyflogwr**

##### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig i adnabod cleifion yn gywir cyn eu hamlygu (triniaeth meddygaeth niwclear). Y nod oedd sicrhau bod y claf yn cael yr amlygiad cywir. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn i adnabod cleifion yn gywir.

O dan y weithdrefn roedd yn ofynnol i weithredwyr ofyn i gleifion gadarnhau eu henw, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad. Gwelsom hefyd fod y weithdrefn I-131 yn gofyn i'r un gwiriad adnabod cleifion gael ei gynnal. Roedd y weithdrefn yn disgrifio gwiriadau amgen y dylid eu cyflawni os na all cleifion gadarnhau pwy ydynt.

##### *Unigolion sydd mewn oed i gael plant*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwneud ymholiadau ynglŷn â beichiogrwydd er mwyn sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu holi'n briodol ac yn gyson. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd neu fwydo ar y fron. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau o ran y weithdrefn hon.

### *Meini prawf atgyfeirio*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer gwneud a derbyn atgyfeiriadau ar gyfer amlygiadau meddygaeth niwclear. Mae'r weithdrefn yn disgrifio sut y dylid cadarnhau ceisiadau am ddatguddiadau yn erbyn rhestr o unigolion, sydd â'r hawl i wneud cyfeiriadau ar gyfer profion meddygaeth niwclear, a gedwir o fewn systemau electronig y bwrdd iechyd.

Roedd yn rhaid i bob achos gael ei atgyfeirio yn unol â'r canllawiau atgyfeirio a gydnabyddir yn genedlaethol. Nod y canllawiau hyn yw helpu gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i benderfynu ar yr archwiliad mwyaf priodol i ateb y cwestiwn clinigol sy'n codi.

Esboniodd uwch aelodau o'r staff mai canllawiau atgyfeirio a ddefnyddir ar gyfer Therapi Iodin 131 yw'r canllawiau clinigol cyfredol a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr<sup>4</sup>, ond nid oedd hyn wedi'i bennu yn y gweithdrefnau.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl ganllawiau cyfeirio wedi'u nodi'n glir yn y gweithdrefnau, gan gynnwys ar gyfer therapi Iodin 131.

#### **Dyletswyddau ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr**

Roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi hawl a nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd). Roedd hyn yn nodi'n glir eu priodolau. Roedd gan y cyflogwr hefyd fatricsau hawl manwl ar gyfer radioleg a PET-CT felly mae cwmpas yr ymarfer ar gyfer unigolion sydd â hawl fel deiliaid dyletswydd yn glir.

---

<sup>4</sup>Coleg Brenhinol y Ffisigwyr: Radioiodine in the management of benign thyroid disease, clinical guidelines

<https://cdn.shopify.com/s/files/1/0924/4392/files/radioiodine-management-benign-thyroid-disease.pdf?15599436013786148553>

Nododd y polisi ymbelydredd ïoneiddio trosfwaol hefyd sut mae'r cyflogwr yn dirprwyo tasgau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) drwy'r sefydliad.

Cadarnhaodd staff fod trefniadau ar gyfer sefydlu, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Rhoddir gwybod i'r staff am ddiweddariadau a byddant yn llofnodi i ddweud eu bod wedi eu derbyn, lle bo'n briodol.

### Cyfiawnhau Amlygiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi amlygiadau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau mai dim ond yr amlygiadau fydd eu hangen arnynt fel rhan o'r gofal a'r driniaeth y bydd cleifion yn eu cael.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion a oedd yn dangos awdurdodi (h.y. tystiolaeth o gyfiawnhau) amlygiadau.

Gwnaethom nodi bod yr adran yn defnyddio canllawiau awdurdodiad dirprwyedig ar gyfer gweithdrefnau meddygaeth niwclear gyffredinol, er mwyn i weithredwr awdurdodi amlygiad yn erbyn canllawiau a nodwyd gan ymarferydd. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwella manylion a fformat y canllawiau hyn mewn rhai meysydd. Gwnaethom hefyd gynghori y dylid cysylltu protocolau priodol â'r meini prawf awdurdodi a ddefnyddiwyd ar gyfer pob triniaeth, er mwyn rhoi mwy o eglurder i staff. O ran PET-CT, nodwyd gennym fod y canllawiau i'w defnyddio gan weithredwyr wedi cael eu cytuno'n anffurfiol rhwng yr ymarferydd a'r gweithredwyr ac y dylid ffurfioli hyn.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod canllawiau awdurdodiad dirprwyedig wedi'u manylu'n briodol ar gyfer meddygaeth niwclear gyffredinol a PET-CT a'u bod yn gysylltiedig â'r protocolau priodol, lle y bo'n briodol,.

### Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio<sup>5</sup> amlygiadau.

Nod y trefniadau hyn oedd sicrhau bod dosau o ymbelydredd a roddir i gleifion a'u gofalwyr a'u cysurwyr o ganlyniad i amlygiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (a elwir hefyd yn ALARP).

Disgrifiodd uwch staff yn glir sut mae'r arbenigwyr ffiseg feddygol<sup>6</sup> yn rhan o'r broses o optimeiddio amlygiadau.

Nodwyd gennym fod y cyflogwr wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu gweithdrefn newydd mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr sy'n cael dos ymbelydredd ïoneiddio wrth gefnogi unigolyn sy'n cael triniaeth (megis drwy ddal ei law).

Fodd bynnag, gwnaethom sylwi yr ymddengys bod rhywfaint o anghysondebau o ran ymarfer mewn gwahanol feysydd o ran y diffiniad o ofalwyr a chysurwyr. Er enghraifft, gwahaniaethau mewn ymarfer rhwng yr adrannau pelydr-X a meddygaeth niwclear ynglŷn â phryd mae unigolyn yn cael ei ystyried yn ofalwr ac yn gysurwr. Gwnaethom drafod gyda'r staff yr angen am ddull cyson yn ogystal â chysondeb ar gyfer sefyllfaoedd (heb eu cynnwys yn y weithdrefn) lle byddai angen ystyried unigolyn fel gofalwr a chysurwr ar gyfer meddygaeth niwclear ddiagnostig.

Nodwyd hefyd bod angen diweddarau'r weithdrefn a'r ymarfer ar gyfer gofalwyr a chysurwyr i adlewyrchu cyfiawnhad y dos i'r unigolion hyn, yn unol â'r gofynion rheoleiddio. Gwnaethom hefyd drafod gydag uwch aelodau o'r staff yr angen i sicrhau eglurder o fewn y weithdrefn ynglŷn â chyfyngu dosau ar gyfer gwahanol fathau o amlygiadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod ymarfer cyson o ran gofalwyr a chysurwyr ym

---

<sup>5</sup> Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

<sup>6</sup> Arbenigwr ffiseg feddygol yw person sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol am feddu ar wybodaeth, hyfforddiant a phrofiad mewn perthynas â chymhwyso ffiseg at y defnydd diagnostig ac ymyriadol o ymbelydredd ïoneiddio.



mhob adran, a bod diweddar'u'r weithdrefn i ystyried amlygiad cysurwyr a gofalwyr mewn meddygaeth niwclear ddiagnostig.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y cyfiawnhad dos amlygiadau i ofalwyr a chysurwyr yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol mewn gweithdrefnau ac ymarferion.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig<sup>7</sup>. Roedd hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer argymhell lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer amlygiadau yn yr adran. Gwelsom fod lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu harddangos a'u bod ar gael i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran yn unol â'r weithdrefn uchod. Dywedwyd wrthym fod gwaith wrthi'n yn cael ei gwblhau i sefydlu Lefel Cyfeirio Diagnostig (DRL) leol ar gyfer tomograffeg gyfrifedig (TG) a wneir fel rhan o driniaethau cardiaidd.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer cadarnhau a chofnodi'r dosau a oedd yn cael eu rhoi. Lle yr eir y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig yn rheolaidd, gall hyn awgrymu problemau o ran cyfarpar neu ymarfer ac y byddai angen ymchwilio i hynny. Cadarnhaodd gweithdrefn y cyflogwr y byddai adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd a phryd bynnag yr eir y tu hwnt i DRLs yn gyson, er mwyn sicrhau bod camau unioni'n cael eu cymryd, lle y bo'n briodol. Byddai'r adolygiadau yn cael eu cynnal gan arweinydd yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r DRL enwebedig, a'u hadrodd i'r pwyllgor diogelu rhag radioleg yn y bwrdd iechyd.

### *Pediatreg*

Roedd y cyflogwr wedi datblygu gweithdrefnau ar amlygu plant i ymbelydredd. Nod y rhain oedd sicrhau bod y dosau ymbelydredd dan sylw yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl. Roedd y weithdrefn hefyd yn nodi'r broses i'w dilyn pan oedd achosion yn cael eu hatgyfeirio lle roedd cam-drin corfforol yn cael ei amau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a gweithdrefnau'r cyflogwr o ran amlygu plant i ymbelydredd. Esboniodd y staff

---

<sup>7</sup> Amcan lefelau cyfeirio diagnostig yw helpu i osgoi rhoi dosau gormodol o ymbelydredd i gleifion. Defnyddir lefelau cyfeirio diagnostig fel canllaw i helpu i hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer diogelu rhag ymbelydredd.

hefyd eu bod yn cael sesiynau penodol yn ystod yr wythnos ar gyfer amlygu plant er mwyn sicrhau bod dosau'n cael eu cadw mor isel â phosibl a bod y plant yn gyfforddus yn yr amgylchedd.

### *Gwerthuso clinigol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwerthusiad clinigol (adrodd) o bob amlygiad meddygol a oedd yn cael ei gyflawni yn yr adran. Mae hyn yn bwysig er mwyn hybu gofal amserol i'r cleifion.

Roedd y weithdrefn hon yn nodi'n glir pwy allai gynnal y gwerthusiad clinigol o amlygiadau a'r broses adrodd, gan gynnwys pan fo angen adroddiadau brys.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Darparodd yr uwch staff restr gyfredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran. Roedd hon yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Dywedwyd wrthym fod rhai eitemau o gyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio yn yr adran yn hen ond bod cynllun ar waith i gael cyfarpar newydd yn eu lle. Roedd y bwrdd iechyd yn cadw cofrestr risg gyfredol o ran cael cyfarpar newydd ac roedd adnoddau'n cael eu dyrannu yn unol â hynny, gan ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar risg.

Cadarnhaodd yr uwch aelodau o'r staff fod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn ymwneud yn uniongyrchol â chaffael a phrofi derbynoldeb cyfarpar meddygaeth niwclear newydd, a phrofi offer cyfredol yn rheolaidd.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da. Ar adeg yr arolygiad, gwelsom fod larymau tân wrthi'n cael eu symud ac y byddai angen rhywfaint o waith ailaddurno.

Gwelsom fod yr adran yn hygyrch i gleifion a'u gofalwyr, ac roedd yn amlwg ei bod wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd yr adran yn lân yr olwg ac nid oedd unrhyw beryglon baglu amlwg. Gwnaethom sylwi nad oedd llawer o le gan yr adran, yn enwedig lle storio. O ganlyniad, gwelsom fod gwelyau radioleg (trolïau) yn cael eu storio ar hyd wal y coridor. Er nad oedd hyn yn ymddangos ei fod yn cyfyngu ar fynediad cleifion yn uniongyrchol, gwnaethom gynghori y dylai'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r mater.

Gan y byddai cleifion sy'n cael triniaeth meddygaeth niwclear yn ddod yn ymbelydrol am gyfnod, gwnaethom edrych ar y trefniadau i reoli ymbelydredd cleifion yn yr adran. Gwelsom fod arwyddion a thoiledau pwrpasol i gleifion eu defnyddio, ar ôl iddynt gael sylweddau ymbelydrol. Nid oedd gan yr adran le ar gyfer ardal aros ar wahân i gleifion a'u gofalwyr ei defnyddio cyn ac ar ôl rhoi'r feddyginiaeth iddynt, ond disgrifiodd y staff y broses o reoli amlygiadau i gleifion a gofalwyr yn briodol.

Roedd arwyddion yn eu lle er mwyn atal y rhai heb awdurdod rhag mynd i mewn i ystafelloedd lle roedd cyfarpar meddygaeth niwclear yn cael ei ddefnyddio.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn wrth ddefnyddio'r cyfarpar meddygaeth niwclear.

### **Atal a rheoli heintiau**

Er na allem arsylwi ar drefniadau rheoli heintiau rhwng cleifion yn yr adran meddygaeth niwclear yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yr amgylchedd i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da.

Esboniodd y staff y trefniadau ar gyfer sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu rhag y risg o haint.

Gwelsom hefyd fod cyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r staff. Mae dwylo glân yn hanfodol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau rheoli heintiau.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod disgwyl i'r staff gael hyfforddiant diogelu fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon am les plentyn neu oedolyn, a ble y byddent yn ceisio cyngor.

## **Gofal effeithiol**

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

### *Archwiliad clinigol*

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod gan y gwasanaeth radioleg raglen archwilio clinigol mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol.

Gwelsom enghreifftiau o archwiliadau diweddar a gynhaliwyd. Roedd uwch aelodau o'r staff hefyd yn gallu esbonio sut roedd y rhain wedi cyfrannu at hyrwyddo ymarfer cyson rhwng y gwahanol adrannau radioleg o fewn y bwrdd iechyd, er lles cleifion a'u gofal.

### *Cyngor arbenigol*

Roedd Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio cyffredinol y bwrdd iechyd yn nodi rôl yr arbenigwr ffiseg feddygol ac roedd hyn yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Disgrifiodd uwch staff yn glir sut roedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn rhan o amlygiadau. Gwelsom fod perthynas waith dda rhwng yr arbenigwyr ffiseg feddygol a staff yn yr adran radioleg a thu allan. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan arbenigwyr ffiseg feddygol, ac amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt. Nodwyd gennym fod hwn yn arfer da.

### *Ymchwil*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig a oedd yn nodi'r meini prawf ar gyfer cynnal ymchwil.

Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir y meini prawf ar gyfer derbyn atgyfeiriadau ar gyfer amlygiadau o'r fath.

Esboniodd yr uwch aelodau o'r staff mai'r radiograffydd ymchwil sy'n cael pob cais am dreialon ymchwil. Byddai'n adolygu'r holl brotocolau ymchwil ac yn sicrhau bod y drwydded a'r cymeradwyaethau priodol ar waith ar gyfer y treialon ymchwil cyn i'r bwrdd iechyd eu cymeradwyo.

Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i ddiweddarau ei weithdrefn ymchwil a'i siartiau llif er mwyn adlewyrchu'r angen am gymeradwyaeth y Pwyllgor Cynghori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol, p'un a oedd y noddwr ymchwil yn ystyried bod y datguddiadau yn rhan o ofal safonol ai peidio.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Gwelsom fod systemau rheoli gwybodaeth priodol ar waith. Drwy'r systemau hyn roedd modd cofnodi manylion perthnasol cleifion a gwybodaeth am feddygaeth niwclear a berfformiwyd yn yr adran ac roedd y staff yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd.

### **Cadw cofnodion**

Adolygwyd sampl o gofnodion atgyfeirio cleifion gennym a nodwyd bod yr aelodau hynny o'r staff a oedd yn ymwneud â'r amlygiad wedi eu cwblhau drwy roi'r manylion priodol. Roeddent hefyd yn dangos bod y staff wedi dilyn gweithdrefnau perthnasol y cyflogwr. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff yn datblygu profforma newydd fel ffordd o wella'r gwaith o gadw cofnodion ym maes meddygaeth niwclear.

## **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal*

Gwelsom fod strwythur rheoli cadarn gyda llinellau adrodd clir ar waith. Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gydymffurfio â'r rheoliadau'n barhaus.

Gwelsom fod arweinyddiaeth weladwy a chefnogol ar waith yn yr adran.

Dangosodd y staff fod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u priod rolau yn yr adran.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant staff perthnasol.

## **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Gwelsom fod strwythur rheoli cadarn gyda llinellau adrodd clir ar waith. Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o weithredu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 fel roeddent yn gymwys i'r adran meddygaeth niwclear yn Ysbyty Maelor Wrecsam a pharhau i gydymffurfio â nhw.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell. Gwelsom fod arweinyddiaeth weladwy a chefnogol ar waith yn yr adran.

Cyn yr arolygiad, gofynnodd AGIC i uwch aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Y nod oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol yr adran mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno ac roedd yn gynhwysfawr.

## Dyletswyddau'r cyflogwr

### *Rhoi hawl*

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi hawl a nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Roedd y rhain yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer rhoi hawl yn glir ac yn nodi deiliaid y ddyletswydd yn ôl grŵp staff. Roedd y weithdrefn yn nodi'r lefel ddisgwyliedig o hyfforddiant ar gyfer pob grŵp o staff â hawl ynghyd â chwmpas eu hymarfer.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu esbonio gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rhoi hawl, gan gadarnhau eu bod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig (llythyr rhoi hawl) o'u hawl i gyflawni tasgau sy'n gysylltiedig ag amlygiadau meddygol.

### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Prif weithredwr y bwrdd iechyd oedd y cyflogwr dynodedig. Mae hyn yn arferol. Roedd Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio y bwrdd iechyd yn nodi'n glir mai'r prif weithredwr oedd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r dyletswyddau fel y cyflogwr, fel y'i disgrifiwyd yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig clir a chryno wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Roedd y rhain yn gyfredol ac roedd dyddiadau adolygu wedi'u nodi'n glir.

Nodwyd gennym fod y bwrdd iechyd wrthi'n gweithio i wella ei system rheoli dogfennau er mwyn hwyluso mynediad i'r gweithdrefnau a'r protocolau, a'r gwaith o'u hadolygu.

Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod rhai meysydd i'w gwella o ran gweithdrefnau a phrotocolau er mwyn sicrhau cysondeb ac i leihau ailadrodd. Mae hyn yn wir am ddogfennaeth mewn perthynas â therapïau radioniwclid a lle datblygwyd gweithdrefnau ar wahân ar gyfer meddygaeth niwclear fel rhan o'r fframwaith radioleg.

Gwnaethom hefyd drafod gydag uwch aelodau o'r staff gyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mewn perthynas â'r

gwasanaeth PET-CT symudol (a ddarperir gan gyflogwr gwahanol). Nodwyd gennym fod y bwrdd iechyd wedi dechrau gweithio ar weithdrefn ar y cyd ar gyfer cydweithredu rhwng y ddau gyflogwr/sefydliad. Fodd bynnag, nodwyd yr angen i egluro ymhellach y cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ar gyfer gwahanol dasgau a gwella'r fforwm ar gyfer trafod protocolau. Yn benodol, egluro pa gyflogwr sy'n cyflawni pa dasgau o dan y rheoliadau, ac ystyried sut y caiff gwybodaeth am bryderon a digwyddiadau ei rhannu.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r cyflogwr barhau â'r gwelliannau i'r gweithdrefnau a'r protocolau er mwyn sicrhau bod y rhain yn glir ac yn gyson.

Rhaid i'r cyflogwr egluro'r cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mewn perthynas â'r gwasanaeth PET-CT symudol.

### *Hysbysiadau o ddigwyddiadau*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am amlygiadau damweiniol neu anfwriadol yn yr adran ac ymchwilio iddynt. Mae hyn yn bwysig er mwyn helpu i nodi themâu a thueddiadau a rhannu gwersi o ddigwyddiadau er mwyn helpu i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto. Roedd hon yn nodi'n glir y weithdrefn y dylai'r staff ei dilyn os oeddent yn amau bod amlygiad damweiniol neu anfwriadol wedi digwydd. Roedd y weithdrefn yn rhoi'r arweiniad cywir i'r staff hysbysu AGIC am ddigwyddiadau o'r fath yn amserol.

Nodwyd gennym, lle bu digwyddiadau, fod y gwersi o'r rhain wedi cael eu rhannu ymhlith y staff yn yr adran. Roedd trefniadau hefyd ar waith i rannu unrhyw wersi â thimau staff a oedd yn gweithio ag ymbelydredd Ïoneiddio mewn adrannau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

Yn ystod ein harolygiad, dangosodd y staff fod ganddynt y sgiliau cywir a chadarnhawyd eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu priodrolau yn yr adran.



Cawsom ar ddeall bod gan yr adran weithlu sefydlog ac nid oedd fel rheol yn defnyddio staff asiantaeth na locwm.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr a rhoi hawl iddynt. Roedd y rhain yn nodi'r lefel ddisgwyliedig o hyfforddiant ar gyfer pob grŵp o staff.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn gyflawn ac yn cynnwys llofnodion i ddangos bod yr hyfforddiant sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) wedi cael ei gynnig a bod y staff wedi cael yr hyfforddiant hwnnw.

Roedd aelod newydd o staff yn yr adran wedi cael cyfnod sefydlu priodol ac roedd yn teimlo ei fod wedi cael cymorth da yn ei rôl.

Mae'r adran meddygaeth niwclear yn cynnwys tîm bach o staff. Rhoddwyd gwybod inni fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn briodol, a bod hyn yn cael ei fonitro gan reolwyr yn yr adran.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg](#)

[cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i ganfyddiadau arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd ([2018](#)).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag amlygiad anfwriadol, gormodol neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig ag amlygiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio. Mae gwasanaethau yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch Swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd Ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:Maelor Wreccsam**

**Ward/adran:Meddygaeth niwclear**

**Dyddiad arolygu: 23 a 24 Ionawr 2019**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty:** Wrexham Maelor

**Ward/adran:** Meddygaeth niwclear

**Dyddiad arolygu:** 23 a 24 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir i gleifion yn hawdd i'w deall er mwyn i negeseuon allweddol fod yn amlwg.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig yn gyson â'r wybodaeth lafar a roddir gan y staff.</p>	<p>4.2 Gwybodaeth i Gleifion</p> <p>Rheoliad 12(6) o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol)</p>	<p>Fel rhan o waith parhaus tuag at gyflawni'r Cynllun Achredu Gwasanaethau Delweddu (ISAS) caiff rhaglen adolygu o'r holl wybodaeth am gleifion o bob rhan o'r adran radioleg ei rhoi ar waith. Mae'r canfyddiadau o waith ymchwil ffurfiol i wybodaeth am gleifion a'u gorbryder o ran Delweddu Atseiniol Magnetig, a'r defnydd o banel darllenwyr Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ffurfio rhan o'r gwaith o wella'r wybodaeth am gleifion.</p>	<p>Pennaeth gwasanaethau Radiograffeg a Phennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Adolygiad cychwynnol l'w gwblhau erbyn 29/6/19</p> <p>Y prosiect cyfan wedi'i gwblhau ym mhob un o'r dulliau</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff yr holl wybodaeth am gleifion ei hadolygu a'i diweddarau ym mhob rhan o'r gwasanaethau radioleg.</p> <p>Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Radioleg fydd yn monitro'r prosiect cyfan</p> <p>Adolygu a diweddarau gwybodaeth ysgrifenedig am feddygaeth niwclear</p>		<p>radioleg</p> <p>Rhagfyr 2019</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod eglurder o ran y ffyrdd y gall cleifion roi adborth neu godi pryderon, gan gynnwys cleifion sy'n derbyn PET-CT drwy'r gwasanaeth symudol.</p>	<p>6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth</p>	<p>Defnyddio ffurflenni adborth presennol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn lle pob fersiwn o adborth</p> <p>Y Gynghrair Feddygol i ddefnyddio ffurflenni adborth Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer pob pryder ac adborth gan gleifion ar gyfer cleifion yng Nghymru</p> <p>Y Gynghrair Feddygol i hysbysu'r Adran</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg a'r rheolwr Rhanbarthol ar gyfer y Gynghrair Feddygol</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Radioleg yn Ysbyty Maelor Wrecsam o unrhyw bryderon a godwyd tra bod y claf ar y sganiwr tomograffeg allyrru positronau (PET)		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl ganllawiau cyfeirio wedi'u nodi'n glir yn y gweithdrefnau, gan gynnwys ar gyfer therapi Iodin 131.	Rheoliad 6(5)(a) o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol)	Diweddarau'r weithdrefn i gynnwys cyfeiriad at ganllawiau clinigol perthnasol Coleg Brenhinol y Meddygon	Arbenigwr ffiseg feddygol ar gyfer Iodin 131	Cwblhawyd
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod canllawiau awdurdodiad dirprwyedig wedi'u manylu'n briodol ar gyfer meddygaeth niwclear gyffredinol a PET-CT a'u bod yn gysylltiedig â'r protocolau priodol, lle y bo'n briodol.	Rheoliad 11(5) o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol)	Adolygu a diweddarau canllawiau awdurdodiad dirprwyedig gyda Deiliaid Trwydded Ymarferydd y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol)	Y Prif Radiograffydd ar gyfer Meddygaeth Niwclear a'r rheolwr Rhanbarthol ar gyfer y Gynghair Feddygol	30/04/19



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr sicrhau bod ymarfer cyson ymysg gofalwyr a chysurwyr ym mhob adran, a bod y weithdrefn i ystyried amlygiad cysurwyr a gofalwyr mewn meddygaeth niwclear ddiagnostig yn cael ei diweddarau.</p> <p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y cyfiawnhad dros amlygiadau i ofalwyr a chysurwyr yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol mewn gweithdrefnau ac ymarferion.</p>	<p>Rheoliad 12(5) o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)</p>	<p>Adolygu a diweddarau gweithdrefn y Gofalwyr a'r Cysurwyr er mwyn cadarnhau'r canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod ymarferwyr ar gyfer sganio pelydr-X cyffredinol a CT yn cael eu nodi yn y weithdrefn a'r matrices hawliau.</li> <li>Bod ymarferwyr ar gyfer gofalwyr a chysurwyr ar gyfer meddygaeth Niwclear yn cael eu nodi</li> <li>Bod gofalwyr a chysurwyr ar gyfer meddygaeth niwclear yn cael eu nodi</li> </ul> <p>Diweddarau matricesau hawl Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn briodol</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg ac arbenigwr ffiseg feddygol</p>	<p>04/04/19</p>
<p><b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b></p>				
<p>Dylai'r cyflogwr barhau â'r gwelliannau i'r gweithdrefnau a'r protocolau er mwyn sicrhau</p>	<p>Rheoliad 6(5)(b) o'r Rheoliadau</p>	<p>Cwblhau'r gwaith o ddiweddarau'r weithdrefn i ddangos cyfrifoldebau'n glir</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a</p>	<p>29/05/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>bod y rhain yn glir ac yn gyson.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr egluro'r cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mewn perthynas â'r gwasanaeth PET-CT symudol.</p>	Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ac Atodlen 2 (1)(d)	<p>o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mewn perthynas â'r PET-CT</p> <p>Adolygu protocolau meddygaeth niwclear er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn gyson ac yn glir</p> <p>Sefydlu cyfarfodydd adolygiad llywodraethu rheolaidd rhwng y Gynghrair feddygol a Phrifysgol Betsi Cadwaladr</p>	Llywodraethu Radioleg a'r rheolwr Rhanbarthol ar gyfer y Gynghrair feddygol	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Helen Hughes**

**Swydd: Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg**

**Dyddiad: 21 Mawrth 2019**